

Memorandwm Esboniadol i'r Rheoliadau Addysg (Y Diwrnod Ysgol a'r Flwyddyn Ysgol) (Cymru) (Diwygio a Dirymu) 2022

Paratowyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan y Gyfarwyddiaeth Addysg ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

Datganiad y Gweinidog

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Rheoliadau Addysg (Y Diwrnod Ysgol a'r Flwyddyn Ysgol) (Cymru) (Diwygio a Dirymu) 2022. Rwyf wedi fy modloni bod y manteision yn cyfiawnhau'r costau tebygol.

Jeremy Miles AS

Gweinidog y Gymraeg ac Addysg

24 Ionawr 2022

RHAN 1

1. Disgrifiad

1.1 Mae Rheoliadau Addysg (Y Diwrnod Ysgol a'r Flwyddyn Ysgol) (Cymru) (Diwygio a Dirymu) 2022 yn diwygio Rheoliadau Addysg (Y Diwrnod Ysgol a'r Flwyddyn Ysgol) (Cymru) 2003, ac yn dirymu Rheoliadau Addysg (Y Diwrnod Ysgol a'r Flwyddyn Ysgol) (Cymru) (Diwygio) (Coronafeirws) 2020.

2. Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

2.1 Dim.

3. Cefndir deddfwriaethol

3.1 Gwnaed Rheoliadau Addysg (Y Diwrnod Ysgol a'r Flwyddyn Ysgol) (Cymru) 2003 o dan adrannau 551 a 569(4) a (5) o Ddeddf Addysg 1996 a daethant i rym ar 31 Rhagfyr 2003.

3.2 Mae Rheoliad 4(1) yn darparu bod pob diwrnod y mae ysgol yn cyfarfod i'w rannu yn ddwy sesiwn a wahanir gan egwyl yng nghanol y dydd oni bai bod amgylchiadau eithriadol yn peri nad yw hyn yn ddymunol. Mae Rheoliad 4(2) yn darparu bod rhaid cynnal o leiaf 380 o sesiynau mewn ysgol yn ystod unrhyw flwyddyn ysgol. Nid yw hyn yn cynnwys ysgolion meithrin.

3.3 Mae Rheoliad 4(3) yn caniatáu bod sesiynau pan rwystrir ysgol rhag cyfarfod i'w trin fel pe bai wedi cyfarfod yn unol â'r bwriad.

3.4 Mae Rheoliad 5 yn darparu ar gyfer y nifer ychwanegol o ddiwrnodau hyfforddiant mewn ysgol a ganiateir ac mae hyn yn cael ei ddiwygio o dro i dro er mwyn rhoi ystyriaeth i newidiadau i'r system addysg megis hyfforddi ar gyfer y cwricwlwm newydd.

3.5 Gwneir y Rheoliadau hyn yn ddarostyngedig i'r weithdrefn negyddol.

4. Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael

4.1 Mae'r Rheoliadau yn darparu ar gyfer nifer y sesiynau (hanner diwrnodau) y mae rhaid i ysgolion a gynhelir yng Nghymru eu cynnal yn ystod y flwyddyn ysgol 2021/22.

4.2 Gwneir y diwygiad i leihau nifer y sesiynau gofynnol o ddwy sesiwn, er mwyn ystyried y gŵyl banc ychwanegol ar 3 Mehefin 2022 i ddathlu Jiwbilf Platinwm Ei Mawrhydi y Frenhines.

4.3 Caiff ysgolion ddewis, yn unol â chytundeb â'i awdurdod lleol, pryd i gau am ddiwrnod ychwanegol oherwydd bod yr ŵyl banc ychwanegol wedi'i amserlennu ar gyfer gwyliau hanner tymor y Sulgwyn. Mae Dogfen Cyflog ac Amodau Athrawon Ysgol (Cymru) 2021 hefyd yn adlewyrchu hyn.

4.4 Nid effeithir ar weddill y gofynion a nodir yn Rheoliadau 2003.

4.5 Mae Rheoliadau Addysg (Y Diwrnod Ysgol a'r Flwyddyn Ysgol) (Cymru) (Diwygio) (Coronafeirws) 2020 yn cael eu dirymu oherwydd bod y diwygiadau a wnaed yn y rheoliadau hynny yn berthnasol i flwyddyn ysgol 2020/21 ac felly nid oes eu hangen mwyach.

5. Ymgynghori

5.1 Gan fod y Rheoliadau Diwygio yn cael eu gwneud i adlewyrchu'r ŵyl banc ychwanegol yn 2022, ni chynhaliwyd ymgynghoriad.

6. Asesiad Effaith Rheoleiddiol

6.1 Roedd dau opsiwn i'w ystyried wrth benderfynu p'un a oedd y Rheoliadau hyn yn cael eu gwneud.

1. Gwneud dim a rhoi gwybod i'r sector ysgolion na fyddai hawl gan ysgolion i gau am ddiwrnod arall, gan fod yr ŵyl banc ychwanegol yn digwydd o fewn gwyliau hanner tymor y Sulgwyn.
2. Caniatáu i ysgolion gau am ddiwrnod ychwanegol yn lle'r ŵyl banc ychwanegol, yn unol â Dogfen Cyflog ac Amodau Athrawon Ysgol (Cymru) 2021.

Costau a manteision opsiwn 1

6.2 Nid oes costau ariannol i opsiwn 1. Er hynny, drwy drin staff mewn ysgolion yng Nghymru yn llai ffafriol na'r rhai yng ngwledydd eraill y Deyrnas Unedig, ac yn wahanol i flynyddoedd blaenorol pan fu gwyliau banc ychwanegol, gellid dadlau y byddai morâl yn dioddef. Mae'r gweithlu mewn ysgolion wedi cael ei wthio i'r eithaf yn ystod pandemig y coronafeirws. Byddai mynd yn ôl ar yr hyn sydd wedi'i nodi yn Dogfen Cyflog ac Amodau Athrawon Ysgol (Cymru) 2021 yn torri'r amodau a'r telerau y cytunwyd arnynt eisoes.

6.3 Mantais gwneud dim yw na fyddai rhagor o ddyddiau ysgol yn cael eu colli eleni.

Costau a manteision opsiwn 2

6.4 Nid oes costau ychwanegol i'r sector cyhoeddus yn codi o opsiwn 2, er y gellid dadlau y bydd staff ysgol yn cael eu talu am ddiwrnod pan na fyddant yn yr ysgol yn gweithio. Mae hyn yn gymwys i bob sector sy'n cael gŵyl banc ychwanegol.

Hefyd, efallai y bydd costau gofal plant ychwanegol i deuluoedd oherwydd bod diwrnod ychwanegol o wyliau. Mae'r graddau y bydd teuluoedd yn ysgwyddo costau gofal plant ychwanegol yn debygol o ddibynnu ar amgylchiadau a dewisiadau personol. Bydd rhai teuluoedd yn defnyddio aelod o'r teulu nad ydynt yn cael eu talu, bydd eraill yn cymryd gwyliau o'r gwaith neu'n gweithio gartref (lle bo hynny'n bosibl). Os bydd angen gofal plant y telir amdano, mae'n debygol y bydd y gost yn oddeutu £30-40 y plentyn am y diwrnod. Mae'r effeithiau hyn yn cael eu disgrifio'n fanylach yn yr asesiad effaith integredig.

6.5 Rhoddwyd gwybod i'r sector am y diwrnod ychwanegol yn lle'r ŵyl banc ym mis Mehefin 2021, gan roi digon o amser i rieni a gofalwyr gynllunio ar ei gyfer. Yn ogystal, anogwyd ysgolion ac awdurdodau lleol i ystyried yn ofalus beth fyddai'r effaith ar ddysgwyr a rhieni cyn rhoi gwybod am y diwrnod a ddewiswyd.

6.6 Efallai y byddai'r diwrnod ychwanegol o fudd i les dysgwyr a staff, gan roi cyfle iddynt i gael diwrnod gyda'r teulu neu gymryd rhan mewn gweithgareddau sy'n dathlu'r Jiwbilf.

Byddai'r opsiwn hwn yn sicrhau bod staff ysgolion yng Nghymru yn cael eu trin yr un fath a staff mewn ysgolion eraill yn y Deyrnas Unedig ac yn osgoi'r effaith negyddol posibl ar forâl a nodwyd o dan Opsiwn 1.

Asesiad o'r gystadleuaeth

6.7 Nid oes disgwyl i'r Rheoliadau gael effaith ar lefelau cystadleuaeth yng Nghymru na pha mor gystadleuol yw cwmnïau Cymru.

Adolygu ar ôl gweithredu

6.8 Newid deddfwriaethol tymor byr yw hwn, sydd ond yn gymwys ar gyfer blwyddyn ysgol 2021/22. Bydd effeithiau'r Rheoliadau yn cael eu monitro er mwyn llywio'r polisi ar wyliau banc ychwanegol yn y dyfodol.

Casgliad

6.9 Cytunwyd i wneud lle i'r ŵyl banc ychwanegol ym mis Mai 2021 drwy leihau'r nifer gofynnol o sesiynau i athrawon o ddwy sesiwn i yn Nogfen Cyflog ac Amodau Athrawon Ysgol (Cymru) 2021. Croesawyd hyn gan y sector a chan Undebau Llafur.

6.10 Hefyd, trafododd a chytunodd pedair gwlad y Deyrnas Unedig mai'r opsiwn gorau fyddai canfod dull cyffredin er mwyn caniatáu i ysgolion gau am ddiwrnod ychwanegol. Dyma'r dull y penderfynwyd arno yn 2011 ar gyfer y Briodas Frenhinol ac yn 2012 ar gyfer Jiwbilf Ddiemwnt Ei Mawrhydi y Frenhines.

6.11 Felly mae Rheoliadau Addysg (Y Diwrnod Ysgol a'r Flwyddyn Ysgol) (Cymru) (Diwygio a Dirymu) 2022 yn cael eu gwneud fel y'u disgrifir uchod.

7. Asesiadau effaith eraill

7.1 Mae Asesiad Effaith Integredig wedi'i gynnal wrth wneud Rheoliadau Diwygio 2021. Bydd yr Asesiad Effaith yn cael ei adolygu'n barhaus yn ystod y cyfnod y maent mewn grym.

Yr iaith Gymraeg

7.2 Nid oes effeithiau cadarnhaol na niweidiol yn benodol i'r iaith Gymraeg.

Hawliau plant

7.3 Rydym wedi cynnal Asesiad Effaith ar Hawliau Plant. Mae'r canfyddiadau wedi'u crynhoi isod.

7.4 Mae gan blant a phobl ifanc yr hawl i addysg (erthygl 28 o CCUHP). Gellid dadlau y gall colli diwrnod o ysgol o ganlyniad i ŵyl banc gael effaith niweidiol ar ddysgwyr, yn enwedig o gofio'r amser a gollwyd yn yr ysgol oherwydd pandemig COVID-19. Mae ysgolion yn gweithio'n galed i sicrhau nad yw dysgwyr o dan anfantais yn sgil y pandemig drwy Adnewyddu a Diwygio: ein cynllun adfer addysg o COVID-19.

7.5 Rydym wedi bod yn glir wrth gyfathrebu ag ysgolion, awdurdodau lleol a chonsortia addysg rhanbarthol ein bod yn disgwyl i ysgolion ystyried eu cynlluniau'n ofalus a sicrhau bod rhieni yn cael gymaint o rybudd ag sy'n bosibl.

Cydraddoldeb a Hawliau Dynol

7.6 Rydym wedi cynnal Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb. Mae'r canfyddiadau wedi'u crynhoi isod.

7.7 Gallai grwpiau sydd o dan anfantais a grwpiau sy'n agored i niwed deimlo effaith negyddol colli diwrnod o addysg. Gall teuluoedd sy'n byw mewn tldi neu y mae eu hincwm yn dibynnu ar yr oriau y maent yn ei weithio mewn gwirionedd ei chael hi'n anodd i gael gofal plant am y diwrnod ychwanegol hwn.

7.8 Gofynnodd Llywodraeth Cymru i awdurdodau lleol ac ysgolion roi rhybudd cynnar am y newid i ddyddiadau'r tymor er mwyn rhoi digon o amser i rieni gynllunio ar gyfer unrhyw anghenion gofal plant ar gyfer y diwrnod ychwanegol.

7.9 Mae Llywodraeth Cymru wedi cymryd camau i gydymffurfio â rheoliad 8(1)(d) o Reoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011 drwy gynnal asesiadau effaith a sicrhau bod awdurdodau lleol yn ymwybodol o'u dyletswyddau statudol, drwy ddarparu'r nifer gofynnol o sesiynau yn yr ysgol.

Preifatrwydd

7.10 Nid effeithir ar ddarpariaethau'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data 2016 gan y diwygiad i'r Rheoliadau hyn.

Asesiad o'r Effaith ar Gyfiawnder

7.11 Er nad oes Asesiad ffurfiol o'r Effaith ar Gyfiawnder wedi cael ei wneud, ni nodwyd unrhyw effeithiau wrth ystyried y Rheoliadau hyn.